

Cymorth ar gyfer cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith – canllaw byr

# Gwasanaeth recriwtio, cyngor a theilwra sy’n cefnogi cyflogwyr i dyfu a datblygu eu busnes

## Gwasanaeth Recriwtio - Llenwi’ch Swyddi Gwag

**Mae ein rhwydwaith o Ymgynghorwyr Cyflogwyr lleol yn eich helpu i ddod o hyd i’r bobl iawn ar gyfer eich swyddi. Maent yn gweithio gyda chi i lenwi’ch swyddi gwag gan ddefnyddio’r datrysiad recriwtio mwyaf addas, gan gynnwys:**

- **help gyda disgrifiadau swydd**
- **cyflymu eich proses recriwtio**
- **hyrwyddo eich swyddi gwag mewn canolfannau gwaith lleol ac ar ein cyfryngau cymdeithasol**
- **defnyddio swyddfeydd Canolfannau Byd Gwaith am Gyfweliadau (lle mae argael) a digwyddiadau recriwtio lleol**
- **cynllunio recriwtio am y dyfodol·**
- **dod o hyd i swydd - safle swyddi ar-lein am ddim**

**➲ Cysylltwch â’ch Ymgynghorydd Cyflogwr Canolfan Byd Gwaith**

**➲ Ffôn**

**➲ ebost**

**➲ Fel arall, cysylltwch â Llinell Gwasanaethau Cyflogwyr**
gan ddefnyddio’r ffurflen ymholi ar-lein neu dros y ffôn ar 0800 169 0178

**Am sgan gwybodaeth manylach neu cliciwch ar y cod QR i weld Cymorth i recriwtwyr gan y Ganolfan Byd Gwaith**

www.gov.uk/cymorth-i-recriwtwyr-gan-y-ganolfan-byd-gwaith

## Dod o hyd i swydd

**Hysbysebwch eich swyddi ar ein gwefan swyddi ar-lein rhad ac am ddim y bydd miloedd o gyflogwyr a cheiswyr gwaith yn ymweld â hi bob wythnos.**

www.gov.uk/chwilio-am-swydd

canolfanbydgwaith

Rhan o’r Adran Gwaith a Phensiynau

JCP203W

Cymorth ar gyfer cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith – canllaw byr

# Gwasanaeth recriwtio, cyngor a theilwra sy'n cefnogi cyflogwyr i dyfu a datblygu eu busnes

## Gwasanaeth wedi'i deilwra

Ystod o gefnogaeth wedi'i theilwra'n bwrpasol

### Rhaglen Academi Gwaith seiliedig ar Sector

Mae Rhaglenni Academi Gwaith Seiliedig ar Sector yn eich helpu i recriwtio pobl fedrus. Yn para hyd at 6 wythnos maent yn cynnwys hyfforddiant cyn cyflogi sy'n cyd-fynd â'ch anghenion; lleoliad profiad gwaith byr a chyfweliad swydd gwarantedig.
https://www.gov.uk/government/publications/sector-based-work-academies-employer-guide



### Profiad gwaith

Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi pobl sy'n chwilio am waith, gallwch gynnig lleoliadau Profiad Gwaith. Wedi'u trefnu gan y Ganolfan Byd Gwaith, mae'r rhain yn agored i bobl ifanc 18 i 24 oed ac i bobl 25 oed a hŷn nad oes ganddynt hanes gwaith diweddar.
www.gov.uk/government/publications/employers-could-you-offer-work-experience



### Treialon gwaith

Mae treial gwaith yn gyfnod byr heb ei dalu y gallwch ei gynnig i geisiwr gwaith ar fudd-daliadau. Mae'n ffordd i chi'ch dau weld a yw'r swydd yn ffit da. Gall ddigwydd ar ôl i chi gyfweld â rhywun am y swydd benodol. Mae ceiswyr gwaith yn cadw eu budd-daliadau yn ystod y Treial Gwaith.
www.gov.uk/cymorth-i-recriwtwyr-gan-y-ganolfan-byd-gwaith/treialon-gwaith



### Prentisiaethau

Mae prentisiaeth yn swydd â thâl gyda hyfforddiant. Defnyddir prentisiaid ar wahanol lefelau, o ymadawyr ysgol a graddedigion i bobl sydd am hyrwyddo eu gyrfaoedd neu newid cyfeiriad. Gallwch cymryd rhywun newydd arno neu uwchsgilio gweithiwr sy'n bodoli eisoes. Gall cyllid gan y llywodraeth helpu gyda'r costau.
https://www.apprenticeships.gov.uk/employers

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

JCP203W


**Ymwadiad:** Mae cymhwysedd yn berthnasol ar gyfer rhai o'r cynlluniau a'r mentrau. Mae enghreifftiau'n ddarluniadol. Hydref 2023

Cymorth ar gyfer cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith – canllaw byr

# Gwasanaeth recriwtio, cyngor a theilwra sy'n cefnogi cyflogwyr i dyfu a datblygu eu busnes

## Gwasanaeth Cyngor

Cymorth a chyngor i bobl sydd angen help ychwanegol



### Credyd Cynhwysol a chyflogwyr – helpu'ch gweithwyr i symud ymlaen

Mae Credyd Cynhwysol yn daliad misol i bobl allan o waith neu ar incwm isel. Ei nod yw sicrhau bod pobl yn well eu byd mewn gwaith ac yn darparu cefnogaeth barhaus pan fydd pobl yn ennill mwy trwy gynyddu oriau neu ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb. Mae Credyd Cynhwysol yn lleihau'n raddol wrth i bobl ennill mwy. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i chi ac yn helpu pobl i ddatblygu a symud ymlaen wrth gefnogi'ch busnes.
www.gov.uk/guidance/universal-credit-information-for-employers

### Adeiladu gweithlu cynhwysol oedran

Mae Canolfan Byd Gwaith yn gweithio'n agos gyda'r ganolfan ar gyfer **'Centre for Ageing Better'** sy'n cefnogi eu Addewid Cyflogwr oed-gyfeillgar. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gweithwyr hŷn ac yn helpu cyflogwyr i gadw eu gweithwyr presennol waeth beth fo'u hoedran.
www.ageing-better.org.uk/age-friendly-employer-pledge

### Cyflogi pobl ag amodau iechyd neu anableddau

Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn annog cyflogwyr i wella sut maen nhw'n recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl. Mae **Mynediad at Waith** yn gwasanaeth arbenigol sy'n rhoi cyngor ymarferol a cefnogaeth i bobl anabl a chyflogwyr. Mae **Pasbort Addasu Iechyd** yn helpu unigolion a chyflogwyr i nodi unrhyw gefnogaeth ychwanegol y maent eu angen yn y gweithle oherwydd eu hanabledd neu cyflwr iechyd.
https://www.gov.uk/government/publications/employing-disabled-people-and-people-with-health-conditions

### Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cefnogi cyn-aelodau o'n lluoedd arfog a'u teuluoedd.
www.armedforcescovenant.gov.uk/support-and-advice/businesse/

### Gofalwr yn Gadael

Cefnogi pobl ifanc yn gadael gofal.
www.gov.uk/government/collections/care-leaver-covenant--2

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

JCP203W

**Ymwadiad:** Mae cymhwysedd yn berthnasol ar gyfer rhai o'r cynlluniau a'r mentrau. Mae enghreifftiau'n ddarluniadol. Hydref 2023